COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mawrth 9fed, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cyng.R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Catherine Ll. Morris, R. Phillip Roberts, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Dylan Roberts, contractwr cynllun y llwybr estyllog – gweler cofnod 4ch) isod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cyng. Erfyl Wyn Roberts fuddiant yng nghais cynllunio C16/0128/39/LL –
Diddymu Amod 8 ar Ganiatâd Cynllunio 2/19/443/A ac Amod 1 ar Ganiatâd Cynllunio 2/19/443/B sydd yn cyfyngu meddiant o'r eiddo i berson lleol – Crud yr Ewyn, Sarn Bach **–** gan mai ef yw'r ymgeisydd; gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 10fed, 2016 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/0071/39/LL	Newid defnydd o dir amaethyddol i ddefnydd marchogaeth yn cynnwys adeiladu dau floc stablau a sied storio – Tir ger Stád Cornwall, Mynytho **– Cefnogir**
C16/0098/39/LL	Mynedfa newydd a chreu rhodfa i gerbydau – Tir ger Hen Dŷ, Aber-soc**h – Gwrthwynebir oherwydd ei fod mewn AHNE ac ar briffordd gul. Nid yw angen mynediad o'r newydd gan fod un yno eisoes ac nid oes gwybodaeth ychwanegol (Datganiad Dyluniad a Mynediad) pam ei fod ei angen, gan nad yw'r ymgeisydd yn ffermio. Sonnir am gegin yng nghwestiwn saith a thŷ pedair llofft yng ngwestiwn 18 – a ydynt yn rhan o'r cais? Mae'r safle tu allan i'r ffin ddatblygu.**

C16/0106/39/LL	Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd yn ei le a llwyfan cysylltiedig – Cwt Glan Môr 18 Borth Fawr, Aber-soch **– Cefnogir ar yr amod ei fod yr un maint â'r un presennol**
C16/0128/39/LL	Diddymu Amod 8 ar Ganiatâd Cynllunio 2/19/443/A ac Amod 1 ar Ganiatâd Cynllunio 2/19/443/B sydd yn cyfyngu meddiant o'r eiddo i berson lleol – Crud yr Ewyn, Sarn Bach **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – EWR]**
C16/0137/39/LL	Estyniad unllawr blaen, estyniad deulawr ochr, newidiadau i'r porth ac addasiadau – Fras, Mynytho **– Cefnogir**
C16/0139/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un gromen newydd yn ei le a modurdy ar wahân – Fairfield, Lôn Golff, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0164/39/LL	Modurdy ar wahân i'w leoli o flaen yr eiddo – Carrog, Lôn Engan, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0168/39/LL	Estyniad unllawr daear ar y llawr cyntaf (yn cynnwys codi lefel to) ar gyfer darparu ystafelloedd gwely a byw ychwanegol – Cyndel, Stád Llwyn Onn, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0186/39/TC	Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr **–** Defnyddio tir ar gyfer lleoli carafán fel llety preswyl – Tir ger Ty'n Ffynnon, Mynytho

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Trosglwyddwyd goriadau ychwanegol i'r toiledau a chlo'r giât i'r glanhawyr a Gwyn Parry a dechreua ar y gwaith ddydd Llun, Mawrth 21ain – agor y giatiau am wyth y bore a'u cloi am saith y nos.
- Trosglwyddwyd y trydan i npower ers Chwefror 18fed a derbyniwyd anfoneb olaf British Gas – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

b) **Gwefan y Cyngor**

Anfonwyd dogfennaeth a dylai'r wefan fod yn fyw erbyn diwedd yr wythnos. Derbyniwyd anfoneb am ei chynnal – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

c) **Glanhau Afon Soch**

Derbyniwyd e-bost a galwad ffôn yn nodi bod cyfrifwyr Roberts Ffestiniog yn gofyn am yr arian dyledus, ynghyd ag ychwanegu y gweithiodd 'Dic' am naw awr am ddeg diwrnod a bu rhywun ag o bob dydd; deil i weithio oddi cartref. Penderfynwyd na ellid datrys y broblem heb gael gwybod yn union ble bu'r gweithiwr ac y ceisir cyngor cyfreithiol hefyd.

ch) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'/ Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

- Derbyniwyd y Caniatâd Amddiffyn Rhag Llifogydd oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru.
- Yn dilyn derbyn barn syrfewr, cyn dechrau'r gwaith, ar os yw'r tir ddigon caled i dderbyn yr adeiladwaith, darganfuwyd anawsterau wrth agosáu at

lan yr afon. O ganlyniad, gofynnwyd am ymestyn dyddiad cwblhau'r cynllun i gyflwyno'r cais am nawdd – fe'i ymestynnwyd tan heddiw. Eglurodd Dylan Roberts, y contractwr, y sefyllfa ac fel y bu'n rhaid cael mewnbwn arbenigol Datrys. O ganlyniad, ni ellir parhau â'r cynllun ar hyn o bryd a bu'n rhaid ildio'r nawdd, gan ymddiheuro'n fawr am hynny, ond, oherwydd diogelwch, mae'n well gohirio unrhyw waith tan y cwblheir yr ymchwiliadau; penderfynwyd cynnal cyfarfod safle ar ôl y Pasg. Diolchwyd i DR am fynychu'r cyfarfod heno.

d) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Cyfarfu'r Clerc â Luned Evans, Swyddog Datblygu'r Gogledd, a ddywedodd bod well ganddi wneud hynny na gohebu – haws egluro safbwynt y ddwy ochr. Derbyniwyd copi o Bolisi Iaith ULlC (yn Saesneg...!) ac er y nodir yr anfona Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr, lythyr, ni dderbyniwyd un eto. Eglurodd LE y gweithia LC oriau maith er budd cynghorau cymuned/tref ond ni sylweddola, na'r swyddogion eraill, y gweinyddir llawer o gynghorau'r Gogledd drwy'r Gymraeg a'u hangen am ddogfennaeth yn yr iaith.

dd) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd:

- llythyr, Cofrestr Tir ac anfoneb am ddelio â chofrestru trosglwyddo'r llain tir o enw perchennog 23 Maes Awel i'r Cyngor (gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod)
- cais yn gofyn am unrhyw gofnod a thystiolaeth o gostau a wynebodd y Cyngor yn dilyn trosglwyddo'r tir gan berchnogion 20 Maes Awel yn 2005, gan iddo fod yn ei feddiant ers dros ddeng mlynedd erbyn hyn – angen creu datganiad newydd i'r Gofrestrfa Tir; cafwyd hyd i'r cyfryw a'u hanfon at y Cyfreithiwr.

e) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**
Anfonwyd copi o adroddiad yr arolygwr ar siglenni Cae Chwarae Aber-soch at G.L. Jones a derbyniwyd galwad ffôn yn mynegi syndod am gyflwr y *shackles,* gan iddynt gael eu trin y llynedd; addawyd anfon lluniau ato.

f) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Cynhelir cyfarfod ym Mhlas Heli, Pwllheli, nos Fawrth, Mawrth 15fed rhwng chwech ac wyth o'r gloch – y Cadeirydd a'r Clerc am ei fynychu.

ff) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**
Daethpwyd o hyd i gofnod o gyfarfod mis Medi 2004 yn cefnogi cais Cyng. Wyn Williams i fabwysiadu Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd wrth chwilio am wybodaeth i gofnod dd) uchod – fe'i anfonir i'r Gwasanaeth Cyfreithiol er gwybodaeth.

g) **7. Gohebiaeth** a) **Un Llais Cymru (ULlC) –** i) ***Ymgynghoriad Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft***
Anfonwyd sylwadau ar yr uchod – derbyniwyd cydnabyddiaeth eu derbyn. Rhoddwyd yr holl ddogfennaeth i'r Is-gadeirydd ei ddarllen hefyd; newidiadau mawr o'n blaenau.

ng) **7. Gohebiaeth Economi a Chymuned – Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig – Gwobrau Traeth 2016**
Diolchodd Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, am gefnogaeth y Cyngor a thrafodir talu yn y flwyddyn ariannol newydd.

5. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Cais Cynllunio C15/1194/39/RC – Diwygio Cytundeb 106 ar gyfer Tai Fforddiadwy Angen Lleol – Plot 2, Tir ger Eglwys Sant Engan, Llanengan**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Cara Owen, Rheolwr Rheolaeth Datblygu, yn egluro'r sefyllfa parthed yr uchod. Noda y cydweithia'r Uned Gyfreithiol â rhai broceri morgais ar addasu'r 'hen' Gytundebau 106 i adlewyrchu'r hyn a ddymuna cwmnïau morgais ei weld er mwyn rhoi benthyciad. O ganlyniad, diweddarwyd yr 'hen' rai ac nid yw'r Gwasanaeth Cynllunio na'r Uned Gyfreithiol yn ymwybodol fod problemau â hwy. Ychwanega nad yw Cytundebau 106 yn fater sydd ar raglen y Cyngor Llawn ond fe'u trafodwyd, a morgeisi, gan y Pwyllgor Craffu yn ddiweddar. Nid oes cefnogaeth ariannol ar gael i dai/datblygwr gan y Cyngor ar gyfer cefnogi tai fforddiadwy ar hyn o bryd. Apeliodd yr ymgeisydd yn erbyn y dyfarniad – anfonwyd sylwadau'r Cyngor eisoes.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Biniau Halen**
Cadarnhaodd Steffan Jones, Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu, y prisiau a'r pwyntiau a ganlyn:

i) llenwi clwstwr o finiau halen (isafswm o dri) yn £80.00 y bin
ii) llenwi bin halen yn unigol yn £156.00
iii) y Cyngor Cymuned adnabod biniau sydd i'w llenwi gan gysylltu â Swyddog Cyswllt yr ardal berthnasol neu drwy e-bost
iv) bydd angen cysylltu â'r Swyddog Cyswllt gytuno ar symud neu ychwanegu biniau halen yn y gymuned.

Archwilir a llenwir pob bin halen cyn tymor y gaeaf a ddechreua ar Hydref 1af a chyflwynir cynllun lleoliad a rhif y bin cyn hynny – fe'u trosglwyddir yn llawn. Bydd angen defnyddio rhif bin penodol os bydd gofyn am ail-lenwi i'r dyfodol.

b) **Rhaglen Waith mis Mawrth**
Cryfhau ymyl y ffordd ar Ffordd Pant Gwyn, Sarn Bach.

c) **Cwynion**
Derbyniwyd atebion i'r isod:
- angen glanhau Pont Newydd, Llangian – trefnir i arolygwr archwilio'r safle a threfnu'r glanhau, os bydd angen
- gwter newydd ar ochr y ffordd ym Mynytho – tystiolaeth gadarn ar ffeil yn cadarnhau rhesymau dros ei hadeiladu sy'n gwrthbrofi'r hyn a honnir gan y Cyngor

- tair lamp stryd yn Sarn Bach wedi torri (ger yr ysgol, ar y groesffordd a ger Pant Gwyn Bach) – codwyd tri tocyn i atgyweirio'r lampau (Mayrise 20151943, 20152020, 20152021) ac mae gan y ddwy sydd ger Deucoch a Phant Gwyn nam cyflenwi Scottish Power – 25 diwrnod i'w hatgyweirio.

ch) **Dŵr Cymru – Dŵr a Charthffosiaeth yn dod o 'fanol' ger Bryncelyn Isaf, Cilan, a Than-y-Bryn, Sarn Bach**
Derbyniwyd ateb pellach oddi wrth Kate Smith, Swyddog Gofal Cwsmer, yn nodi nad oedd y Cyngor yn hapus â'i hateb ac y deil y broblem. Yn dilyn ymweliad Tudur Ellis, Technegydd Rhwydwaith, (a gafodd sgwrs â GH) trefnwyd arolwg CCTV i ymchwilio'r ardal a chysyllta eto erbyn Mawrth 25ain. Anfonir llun a dynnodd GH.

d) **Huw Prydderch Davies, Swyddog Bwrdeistrefol Dwyfor – Arwydd Stryd Ystád Sant Tudwal, Mynytho**
Cadarnhaodd fod y Post Brenhinol yn ymwybodol erbyn hyn o'r defnydd enw dwyieithog i'r uchod a'i fod yn paratoi arwyddion newydd cyn gynted â phosibl.

dd) **Golau ar Lôn Hawen, Aber-soch**
Copi o gais a dderbyniodd Cyng. Wyn Williams parthed yr uchod, sef gofyn a ellid gosod lamp ar yr ochr agosaf at y Feddygfa, gan nad yw'r lamp gyntaf tan y tro hanner ffordd o amgylch y ffordd. Ychwanega bod polyn y gellid ei ddefnyddio ar ei chyfer; penderfynwyd gofyn am bris ond, deallwyd mai polyn BT ydyw, yn hytrach nag un trydan.

e) **Karen Duggan, Clerc Cyfreithiol – Rhybudd Cyntaf Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi-ddosbarth ger Tyddyn Llan, Llanengan) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2016**
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod a ddaw i rym ar Fawrth 16eg ac y pery am dri mis ond, disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua diwrnod.

f) **Lôn Gwydryn, Aber-soch**
Cais trwy e-bost oddi wrth Cyng. Wyn Williams yn gofyn am gefnogaeth i gael adfer cyflwr palmentydd yr uchod – cydsyniwyd â'i gais.

7. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Atebodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, drwy ddweud:

a) ***Shanty, Pen Bennar***
y bu ychydig o gamddealltwriaeth ar ran yr Adran a threfna gwblhau'r gwaith papur cyn gynted â phosibl

b) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
ei fod yn fodlon cyfarfod ar y safle – angen cynnig dyddiadau iddo

c) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
aros am wybodaeth gan y Cyngor hwn

ch) ***Torri'r Llwybrau***
efallai y bydd gofyn i'r Adran wneud ei thoriadau mawr yn fuan ac, felly, ni all gadarnhau dim ar y funud

d) ***Un Llais Cymru (ULlC) –*** i) ***Ramblers Cymru – Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?***
gobeithiai ei drafod mewn cyfarfod heddiw

dd) ***Llwybr yr Arfordir – Grisiau Porth Ceiriad, Nant/Carreg Haul***
disgwyl pris am wneud ychydig o waith atgyweirio a glanhau

e) ***Giât Fochyn yn Riffli (Llwybr 12)***
heb gael cyfle i edrych arni eto ond, cytuna fod y gamfa'n berygl ar lôn bost ac edrycha os gellir ei hamnewid am rywbeth diogelach.

f) ***Taith Gerdded Ddigidol***
Gwelodd y Clerc Seimon Jones ar Barêd Dewi Sant ac mae'n amlwg na wnaeth ddim â'r daith – "mae o'n siŵr o ddigwydd" oedd ei eiriau!

8. AWGRYMIADAU'R IS-BWYLLGOR ARIANNOL

Gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod. Penderfynwyd peidio â chefnogi cais Bobath – Canolfan Therapi Plant Cymru a Dawns i Bawb gan na chaiff neb o'r gymuned hon fudd ohonynt.

9. GOHEBIAETH

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Cynigion yn ymwneud â Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol***
Ymgynghoriad Drafft – angen sylwadau erbyn Ebrill 25ain.

ii) ***Ymgynghorydd Newydd yng Ngogledd Cymru***
Hysbysu bod Dr. Ian Gardner ar gael i gynorthwyo cynghorau â gwaith prosiect.

iii) ***Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM – Ymateb i'r Cynnig ar Ddarpariaeth yr Ystád Llysoedd a Thribiwnlysoedd yng Nghymru***
Copi o lythyr, er gwybodaeth, am yr uchod.

iv) ***Ymgynghoriad ar Fil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru)***
Copi o ymateb terfynol ULlC i'r ymgynghoriad.

v) ***Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol***
Hysbysiad, er gwybodaeth, o'r Arolwg a gynhelir eleni, yn unol â Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 – bydd gostyngiad o un etholaeth ar ddeg (29 yn lle 40) yng Nghymru.

vi) ***Cyfnewidfa Arfer Da – Trosglwyddo Asedau***
Hysbysiad, er gwybodaeth, o drosglwyddo Gwesty Seren, Blaenau Ffestiniog, a Neuadd Ogwen, Bethesda, i grwpiau cymunedol.

vii) ***Hyfforddiant mis Ebrill***
Copi, er gwybodaeth, o'r hyfforddiant a gynigir yn ystod y mis. Dangosodd y Clerc ddiddordeb yn un neu ddau ohonynt; cydsyniwyd iddi eu mynychu.

viii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Rhaglen yr uchod a gynhelir nos Fercher, Mawrth 23ain ym Mhlas Heli, Pwllhlei, am saith o'r gloch.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda***

Copi wedi'i ddiweddaru o'r uchod er gwybodaeth.

ii) ***Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2016 – 2017***
Copi, er gwybodaeth.

iii) ***Gwybodaeth sy'n Berthnasol i'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***
Copïau o Ganllawiau Statudol terfynol a gyhoeddwyd ar Chwefror 26ain – a) SPSF 4: Rôl Gydweithredol (Cynghorau Cymunedol) a b) Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Canllawiau ynghylch y Defnydd o Dystiolaeth a Dadansoddiad.

iv) ***Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol***
Llythyr sy'n tynnu sylw at yr Offerynnau Statudol Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 a ddaw i rym ar Ebrill 1af.

v) ***Fframwaith Strategol olynol Mwy na Geiriau... ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol***
Cydnabyddiaeth derbyn ymateb i'r uchod.

c) **Grŵp Cynefin – Stád Cornwall, Mynytho**
Llythyr oddi wrth Gwenan Jones, Rheolwr Cartrefi Fforddiadwy, yn cyflwyno ei hun ac yn egluro yr anfonir gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun uchod. Trefnir pnawn/noson agored yn Neuadd Mynytho maes o law.

ch) **Cymorth Cynllunio Cymru – Digwyddiadau Hyfforddiant ar Gynllunio yn Eich Ardal**
Trefnir hyfforddiant i Glercod Cynghorau Cymuned a Thref yn Yr Institiwt, Cyngor Tref Caernarfon ar Fai 23ain – y gost yw £30.00 neu £25.00 pe archebir fis cyn y digwyddiad; cydsyniwyd i'r Clerc ei fynychu.

d) **Gareth a Mary Parry – Newidiadau yn Peri Pryder**
Llythyr oddi wrth yr uchod yn mynegi pryder am yr holl ddymchwel ac ailadeiladu tai sy'n digwydd yn Aber-soch a'r cylch yn ddiweddar gan ofyn am farn y Cyngor hwn; fe'u hatebir drwy ddweud yr ysgrifennir at swyddogion yr Adran Gynllunio, Aelodau Seneddol a'r Cynulliad i fynegi pryder.

dd) **Ymgynghoriaeth Gwynedd – Rheolaeth Adeiladu – Adran 81, Deddf Adeiladu 1984**
Llythyr yn hysbysu y derbyniwyd bwriad o ddymchwel Carisbrooke, Aber-soch.

e) **Anna E. Jones – Dymchwel Tai**
Llythyr oddi wrth yr uchod yn mynegi pryder am ddymchwel ac ailadeiladu tai sy'n digwydd yn Aber-soch sydd, yn y pendraw, yn newid cymeriad y pentref; fe'i hatebir drwy ddweud yr ysgrifennir at swyddogion yr Adran Gynllunio, Aelodau Seneddol a'r Cynulliad i fynegi pryder.

f) **Heddlu Gogledd Cymru – Cyswllt Cymunedau â'r Heddlu**
Llythyr oddi wrth Iwan Lloyd Jones, Rhingyll Tîm Plismona Cymdogaeth De Gwynedd, i gadarnhau ei fod yn awyddus iawn i sicrhau cydweithio effeithiol â Chynghorau Cymuned a Thref – mynychu o leiaf ddau gyfarfod y flwyddyn – ac amgaea restr o Swyddogion Cymunedol Ardal (PCSO) er gwybodaeth.

ff) **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Cofrestr Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau**
Copi o'r uchod er mwyn cyfarch materion a godwyd mewn rhai gwrthwynebiadau i'r Cynllun – cyfnod ymgynghori rhwng Chwefror 25ain ac Ebrill 13eg.

g) **Yr Arolygiaeth Gynllunio**

i) ***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl yr Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch***
Copi, er gwybodaeth, o benderfyniad yr Arolygydd – fe'i gwrthodwyd.

ii) ***Deddf Cynllunio Cymru 2015 – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol***
Llythyr yn hysbysu y cyflwynodd y Ddeddf uchod math newydd o ddatblygiad, sef Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a phenderfynir ar geisiadau cynllunio o'r fath gan Lywodraeth Cymru, nid gan awdurdodau lleol. Fel y'u drafftiwyd, gwna'r rheoliadau hi'n ofynnol i ddatblygwr sy'n cynnig DNS ymgynghori â chynghorau cymuned cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru.

ng) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl dan Adran 78(i) – Llain 2, Tir ger Eglwys Sant Engan, Llanengan**
Llythyr yn hysbysu yr apeliwyd yn erbyn dyfarniad y cais uchod – anfonwyd sylwadau'r Cyngor hwn eisoes.

h) **Cyng. Selwyn Griffiths – Swyddfa Treth Incwm Tŷ Moelwyn, Porthmadog**
Llythyr yn gofyn am gefnogaeth gwrthwynebu cau'r uchod – penderfynwyd cefnogi.

i) **Dewi Roberts – Munudau Cyfarfod**
Cais trwy e-bost yn gofyn am gopi o ddau gyfarfod olaf y Cyngor ac, os yn bosibl, y chwe mis diwethaf – i'w cael ar y wefan pan fydd yn fyw.

10. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C14/0172/39/LL	Chwech bynglo gromen pâr a thri bynglo gromen ar wahân (yr oll o'r tai i fod yn fforddiadwy) – Tir ger Stád Cornwall, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0341/39/LL	Gwaith peirianyddol i greu llithfaen – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin), Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/1260/39/LL	Estyniad unllawr ochr a chefn, codi uchder to'r prif dŷ i greu ystafelloedd yng ngwagle'r to, gosod ffenestri to, ynghyd ag addasiadau i'r edrychiad – Abbotsville, Yr Harbwr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

C15/1305/39/LL	Adeiladu tŷ annedd ar safle modurdy dwbl presennol – Roslyn, Lôn Rhoslyn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1328/39/AM	Adnewyddu caniatâd amlinellol C13/0198/39/AM am dŷ annedd a ffordd fynediad newydd – Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1349/39/RC	Diddymu Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy – Ocean Crossing, Bwlchtocyn – **Gwrthodwyd**
C15/1355/39/LL	Estyniad ffenestr gromen i'r cefn – Maesteg, Maes Gwydryn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1378/39/LL	Estyniad unllawr ochr â theras to uwchben – Pen y Bennar, Lôn Traeth, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0089/39/LL	Cais Diwygiedig – Dymchwel porth car presennol a chodi estyniad to brig yn ei le, codi dwy ffenstr gromen blaen ac estyniad unllawwr cefn – 6 Maes Awel, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C16/0090/39/LL	Adnewyddu cais i godi uchder to'r tŷ a gosod dwy ffenestr gromen ac un to – Woodlands, Lôn Gwydryn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C16/0092/39/DA	Diwygiad ansylweddol i newid gosodiad tirlunio a newid deunyddiau tirlunio caled – Harbour Hotel, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**

11. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Mawrth a chostau gweinyddol (Ionawr – Mawrth) y Clerc ac ad-daliad goriad ychwanegol i giât y toiledau (Rh/S 001971 a 001988), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Delwedd – £411.28 (Rh/S 001969 – (Cynnal y Wefan)
b) Gamlins – £102.00 (Rh/S 001970 – Gweithredu Cofrestriad Tir)
c) Adran yr Urdd Llanengan – £100.00 (Rh/S 001972 – Cyfraniad)
ch) Eisteddfod Llangollen – £100.00 (Rh/S 001973 – Cyfraniad)
d) Pwyllgor Dathlu 400 Botwnnog – £100.00 (Rh/S 001974 – Cyfraniad)
dd) Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru – £50.00 (Rh/S 001975 – Cyfraniad)
e) Cymdeithas Parêd Dewi Sant Pwllheli – £100.00 (Rh/S 001976 – Cyfraniad)
f) Y Groes Goch – £50.00 (Rh/S 001977 – Cyfraniad)
ff) O Ddrws i Ddrws – £200.00 (Rh/S 001978 – Cyfraniad)
g) Gwasanaeth Nyrsys Marie Curie – £50.00 (Rh/S 001979 – Cyfraniad)
ng) Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau – £100.00 (Rh/S 001980 – Cyfraniad)
h) Cyngor ar Bopeth – £100.00 (Rh/S 001981 – Cyfraniad)
i) Ambiwlans Awyr Cymru (Apêl y Ganolfan Awyr) – £100.00 (Rh/S 001983 – Cyfraniad)
l) Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint – £200.00 (Rh/S 001984 – Cyfraniad)
ll) Theatr Bara Caws – £100.00 (Rh/S 001985 – Cyfraniad)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £10.00

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ebrill 13eg, 2016 am saith o'r gloch